**PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **4 Ebrill 2001** |
| **Amser:** | **9.00 am** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru** |

**Teitl: Rhaglen Waith Flynyddol y Comisiwn Ewropeaidd**

**Diben**

Rhoi braslun o’r gwaith y mae’r Comisiwn yn bwriadu’i wneud yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

**Argymhelliad**

Y pwyllgor i nodi’r cynigion ac i ystyried sut i gysylltu gwaith y pwyllgorau pwnc â materion Ewropeaidd.

**Cefndir**

Mae Canolfan Ewropeaidd Cymru, mewn ymgynghoriad â’i phartneriaid, wedi llunio strategaeth lobïo ddrafft ar ôl i’r Comisiwn gyhoeddi ei Raglen Waith Flynyddol. Mae hyn, mewn modd cryno, yn tanlinellu’r mentrau sy’n debygol o gael y blaenoriaeth mwyaf yng Nghymru. Mae strategaeth lobïo Canolfan Ewropeaidd Cymru yn ddogfen hyblyg sy’n cael ei hadolygu’n barhaol gydol y flwyddyn wrth i’r blaenoriaethau newid.

Yn ogystal â hyn, anfonwyd Rhaglen Waith y Comisiwn at bob is-adran yn y Cynulliad gan ofyn iddynt archwilio’i chynnwys er mwyn penderfynu pa fesurau y dylent ymateb iddynt a thynnu sylw eu pwyllgorau pwnc atynt.

Efallai y bydd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd am ystyried sut, ar lefel wleidyddol – drwy ryngweithio gyda phwyllgorau eraill – y dylid dilyn yr agenda a bennwyd gan Raglen Waith y Comisiwn.

**Cydymffurfio**

Mae Rheol Sefydlog 15, yn arbennig adrannau 15.2 a 15.3, yn rhoi i’r Pwyllgor y swyddogaeth o fonitro

‘yr effaith gyffredinol a chanlyniadau’r polisïau a ddilynir gan sefydliadau’r Undeb Ewropeaidd ar gyfer Cymru’ a thynnu ‘sylw pwyllgorau pwnc perthnasol at faterion penodol’.

Nid oes unrhyw achos o reoleidd-dra na phriodoldeb. Cysylltwyd â Swyddfa Gydymffurfio’r Cynulliad ynghylch agweddau cydymffurfio’r adroddiad hwn ac mae’n fodlon.

**Goblygiadau Ariannol**

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn deillio o hyn. Mae’r Is-adran Cynllunio Ariannol wedi cael golwg ar agweddau ariannol yr adroddiad hwn ac mae’n fodlon arnynt.

**Themâu trawsbynciol**

Mae’r cynigion yn mynd i’r afael ag amrediad eang o feysydd polisi sy’n rhan o waith Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Pwynt Cyswllt**

Yr Is-adran Materion Ewropeaidd